
# Mel Williams yn dilyn hynt a helynt

# PAFFWYR CYMRU

AM lawer blwyddyn bellach bûm yn ymchwilio i hynt a helynt gwyddonwyr o Gymru. Yn Lloegr, yn ddieithriad, cawsant yrfa ddisglair ac yno y daeth anrhydeddau lu i'w rhan, heb i Gymru wybod dim amdanynt. Nid felly y paffwyr Cymreig. Cynrychioli Cymru yr oedden nhw bob amser; bu iddyn nhw waedu dros Gymru; clywid seiniau Hen Wlad fy Nhadau yn atsain drwy'r dorf a byddai'r canu Cymraeg yn treiddio drwy'r neuaddau paffio gan godi arswyd ar y gwrthwynebwyr, a chlywid y Gymraeg yn gymysg â'r gwynt.

Dyma pam y cododd hyn chwilfrydedd arnaf i gasglu eu lluniau, eu cofiannau, rhaglenni, posteri ac unrhyw beth perthnasol a allai roi rhyw syniad o'r wefr a oedd yn rhan annatod o'r gornestau hyn.

Pan oeddwn yn blentyn byddwn yn codi am dri o'r gloch y bore yn aml i wrando ar ryw ornest a ddeuai dros yr awyr o bellafoedd byd. Roeddwn yn argyhoeddedig mai'r ornest gyntaf a glywais ar y radio oedd honno rhwng Tommy Farr a Joe Lewis yn 1937. Ond doedd hynny ddim yn bosibl gan nad oeddwn i wedi cael fy ngeni yr adeg honno. Defnyddiai Tommy Farr y Gymraeg yn y sgwâr paffio ac ef o holl baffwyr Prydain a fu agosaf i gipio Pencampwriaeth Pwysau Trwm y Byd.



*Freddie Welsh.*

Ond y paffiwr i mi yw Jimmy Wilde a anwyd yng Nghapel Soar Graigberthlwyd, Llanfabon ger Mynwent y Crynwyr, 12 Mai 1892. Dim ond pum troedfedd dwy fodfedd o daldra oedd o ac yn pwyso llai na saith stôn. Eto roedd yn gallu trechu paffwyr llawer trymach nag ef ei hun. Credir ym myd bocsio mai ef oedd un o'r chwe phaffiwr byd



*Jimmy Wilde.*

gorau a fu erioed. Daeth yn bencampwr byd pwysau pry.

Un a fu'n bencampwr y byd pwysau pry yn 1914 oedd Percy Jones a anwyd ym 21 Windsor St., Treherbert ar Ragfyr 24, 1891. Torrwyd ar ei yrfa baffio gan y bu'n rhaid iddo ymuno â'r fyddin. Ar ddiwedd y rhyfel, fe'i hanafwyd o yn ddrwg iawn a bu farw o wenwyn gwaed yn 1922 ar ôl cystudd hir.

Cymeriad a hanner oedd Freddie Welsh a anwyd yn 17 Morgan St., Pontypridd. Fredrick Hall Thomas oedd ei enw bedydd ond gan nad oedd am i'w fam wybod ei fod wedi dechrau paffio fe alwodd ei hun yn Freddie Welsh. Daeth yn Bencampwr byd pwysau ysgafn yn 1914. Roedd bob amser wedi'i wisgo â gŵn gyda'r ddraig goch ar ei chefn, wrth gerdded i'r sgwâr paffio.

Un arall i'w edmygu'n fawr oedd Tom Thomas a anwyd ar fferm Deiniol, Glynarthen ger Aberteifi yn 1880. Symudodd y teulu i fyw i Fferm Carncelyn, Penygraig, Y Rhondda pan oedd ef yn ifanc. Daeth yn Bencampwr Pwysau Canol Prydain yn 1906. Treuliodd lawer gaeaf yn ei wely am ei fod



*Johnny Williams.*

yn llawn o'r cryd cymalau, ond eto gallai guro'r gorau. Fodd bynnag, aeth ei afiechyd yn drech nag ef yn y diwedd a bu farw yn 1911.

Ceir enwau fel Jimmy Driscoll, Dai Dower, Brian Curvis, Colin Jones, Frank Moody, Jack Peterson a Steve



*Tom Thomas.*

Robinson a Robbie Regan ein dyddiau ni ond yr un rwy'n hoff o drafod ei yrfa yw'r paffiwr a anwyd yn y Bermo ar ddydd Nadolig 1926 o'r enw Johnny Williams. Dyma i chi baffiwr pwysau trwm gwerth sôn amdano, yn enwedig am ei fod yn dod o'r gogledd. Daeth yn bencampwr pwysau trwm Prydain yn 1952. Ceir ei



*Tommy Farr, 1950.*

berthnasau yn frith drwy Feirionnydd er iddo ef symud i Rugby pan oedd yn ifanc ac yno y mae o hyd yn cadw fferm, ond nid yw wedi anghofio ei wreiddiau Cymreig. O chwilio'n ofalus ceir fod digon o luniau ar gael o hyd, a'r rhain, i mi, sy'n creu'r wefr drydanol sy'n ysgubo drwy'r neuaddau yn ystod y gornestau.



*Jack Petersen, Pencampwr Pwysau Trwm Prydain, 1932.*